## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 8 o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000 ("Deddf 2000") yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol (fel y'i diffinir yn adran 9 o'r Ddeddf honno), drwy Orchymyn, addasu is-ddeddfwriaeth at ddibenion awdurdodi neu hwyluso'r defnydd o gyfathrebu electronig.

At ddibenion adran 8 o Ddeddf 2000, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), yn rhinwedd adran 10(2) o Ddeddf 2000, arfer y pŵer i wneud Gorchmynion i'r graddau bod y pŵer hwnnw yn cael ei arfer at un o'r dibenion a geir yn adran 10(3) o Ddeddf 2000.

Mae adran 10(5) o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol pan fydd yn arfer y pŵer hwn i wneud Gorchmynion. Mae cydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi'i sicrhau.

Mae swyddogaethau y mae adran 10(3) o Ddeddf 2000 yn gymwys iddynt, ac sy'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn, i'w cael mewn rheoliadau a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol drwy arfer ei bwerau o dan—

(a) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9) ("y Ddeddf Adeiladau Rhestredig"), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); a

(b) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p.8) ("y Ddeddf Cynllunio"), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (fel y'i amrywiwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2003/390) (Cy.5)).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, ac Atodlen 1 iddo, yn addasu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/390) (Cy.52).

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, ac Atodlenni 2 a 3 iddo, yn addasu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/394) (Cy.53) a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/395) (Cy.54).

Mae diwygiadau tebyg i'r rhai a wneir gan y Gorchymyn hwn yn cael eu gwneud, drwy orchymyn, gan—

(a) y Cynulliad Cenedlaethol (gyda chydsyniad Ysgrifennydd Gwladol Cymru), i Ddeddfau a rheoliadau sy'n ymwneud â chynllunio, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru; a

(b) yr Arglwydd Ganghellor, i reolau gweithdrefnol a wnaed ganddo mewn perthynas ag apelau cynllunio yng Nghymru.